

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Bryn Hesketh, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 01 a 02 Tachwedd 2022

Dyddiad cyhoeddi: 03 Chwefror 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80535-370-6

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	12
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4. Y camau nesaf	20
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	22
Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn uned Bryn Hesketh, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 01 a 02 Tachwedd 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl). Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a gafwyd. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol, barchus a chynhwysol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Trwsio'r toiled ar yr ochr o'r ward i fenywod
- Trwsio'r dolenni drws sydd wedi torri ar ddrysau dwy ystafell wely ar yr ochr o'r ward i ddynion
- Clirio'r cafneu er mwyn atal dŵr rhag dod i mewn
- Adolygu amseroedd prydau ac ystyried darparu'r pryd wedi'i goginio gyda'r nos yn hytrach nag amser cinio
- Rhoi mwy o wybodaeth i berthnasau ac ymwelwyr wrth brif fynedfa'r ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Agwedd y staff a'u hymdrechion i ymgysylltu
- Blwch sylwadau a hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'
- Ardaloedd awyr agored da
- Amgylchedd mewnol glân a thaclus
- Ystafell John's Campaign
- Cyfathrebu â'r cleifion a pherthnasau
- Ymatebion cadarnhaol gan berthnasau a chleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn uned Bryn Hesketh yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac er mwyn atal cleifion rhag cwmpo.

Roedd Bryn Hesketh yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Gosod ffenestri arsylwi ar ddrysau ystafelloedd gwely
- Adolygu argaeledd cymorth therapydd galwedigaethol, ffisiotherapydd, seicolegydd a fferylllydd ar gyfer y ward
- Sicrhau y caiff cyflyrau iechyd corfforol y cleifion eu hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal
- Sicrhau bod y staff yn cofnodi dyddiadau ar y rhestrau gwirio ar gyfer cyffuriau a reolir
- Adolygu'r ffeiliau gofal er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r cleifion mewn perthynas â dadebru yn glir ac yn ddiamwys
- Uwchraddio system galw larymau personol y staff er mwyn sicrhau bod y signal yn cyrraedd pob rhan o'r ward
- Rhoi system rheoli cofnodion electronig ar waith
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdod lleol er mwyn ymdrin ag achosion o oedi wrth ryddhau cleifion/trosglwyddo gofal.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cadarnhau bod pob claf yn iawn bob 15 munud
- Gwaith glanhau trylwyr ar ôl achosion o COVID-19
- Staff cadw tŷ saith diwrnod yr wythnos
- Gwaith cynllunio gofal a chadw cofnodion yn gyffredinol

- Gwaith gweinyddu a rheoli'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Trefniadau rheoli meddyginiaeth yn gyffredinol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda ar lefel y ward, ac roedd y staff yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael. Fodd bynnag, roedd staff yn beirniadu'r diffyg cymorth ac ymgysylltu gan y sefydliad ehangach ac uwch-reolwyr y tu allan i uned Bryn Hesketh.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith ar y cyfan, a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Parhau â'r ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad (PADR) rheolaidd.
- Parhau â'r ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob agwedd ar yr hyfforddiant gorfodol
- Adolygu rolau a chyfrifoldebau Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ym mhob rhan o'r gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdani.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau rheoli a goruchwylio ar lefel y ward
- Prosesau archwilio ac adrodd
- Cymorth a threfniadau goruchwylio ar gyfer y staff o ddydd i ddydd.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael yng nghyntedd y brif fynedfa, gyda llawer ohonynt yn ddwyieithog. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid darparu mwy o wybodaeth am y ward, a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael, i ymwelwyr yn ardal y coridor sy'n arwain o'r brif fynedfa i'r ward.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

Roedd un o'r gweithwyr cymorth gofal iechyd yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddarparu gweithgareddau i'r cleifion a gwelsom fod amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer gweithgareddau ar gael ar y ward.

Roedd ardaloedd amgäedig awyr agored ar gael i'r cleifion, yn cynnwys gwelyau blodau ar lefel uwch, seddau a thŷ haf. Fodd bynnag, roedd angen tacluso rhannau o'r ardaloedd awyr agored. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ardal awyr agored sy'n hygyrch i'r cleifion yn cael ei chadw'n daclus ac mewn cyflwr da.

Cyhoeddodd AGIC holiaduron papur a holiaduron ar-lein er mwyn casglu barn y cleifion a'u perthnasau ar y gofal roeddent yn ei gael yn uned Bryn Hesketh. Cawsom gyfanswm o chwech ymateb (pedwar wedi'u cwblhau gan gleifion a dau wedi'u cwblhau gan berthnasau a oedd yn ymweld â'r uned). Ar y cyfan, roedd y cleifion a'r perthnasau yn fodlon ar y ffordd roedd y staff yn rhyngweithio â'r cleifion a'r gofal a ddarperir. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff a'r lleoliad yn rhagorol.”

“Cefais fy nhrin mewn ffordd garedig a chyfeillgar ac maent wedi bod yn dod i fy adnabod.”

“Rwy'n credu bod y gofal yn dda iawn.”

“Rwy'n hoffi bod yma, rydych yn gwneud i mi chwerthin.”

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oeddent yn rhoi gofal.

Roedd yr amgylchedd wedi'i gynllunio mewn ffordd ystyrlon. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y gellid gwneud amgylchedd y ward yn fwy croesawgar ac yn llai clinigol yr olwg drwy ddarparu posteri a lluniau priodol a chyferbyniad o ran lliw ar y waliau.

Roedd yr ystafelloedd yn fawr ac wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda iawn. Roedd lolfeydd/ardaloedd bwyta cymunedol ar gael i'r cleifion ac roedd lolfeydd/ardaloedd eistedd llai o faint i'r bobl yr oedd yn well ganddynt amgylchedd mwy preifat.

Gwelsom fod dolenni'r drysau wedi torri ar y drysau a oedd yn arwain at ddwy ystafell wely ar yr ochr o'r ward i ddynion. Hefyd, roedd y canllaw cydio yn y toiled ar yr ochr o'r ward i fenywod wedi torri. Dywedwyd wrthym fod yr adran cynnal a chadw yn ymwybodol o'r materion hyn. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dolenni'r drysau a'r canllaw cydio eu trwsio/adnewyddu yn ddi-oed.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau yr oedd yn well ganddynt eu defnyddio. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd barchus a chynhwysol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yng ngorsaf y nyrsys. Roedd y bwrdd wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau y gellid gorchuddio enwau'r cleifion pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfrinachedd y cleifion.

Oherwydd anghenion y grŵp cleifion hwn, nid oedd llawer o wybodaeth i gleifion i'w gweld ar y ward ei hun. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o daflenni gwybodaeth perthnasol ar gael i'r cleifion, eu teuluoedd ac ymwelwyr eraill pan fo angen.

Roedd y perthnasau yn cael eu cynnwys wrth drafod agweddau ar y gofal i'w ddarparu mewn achosion lle nad oedd y cleifion yn gallu deall y wybodaeth. Nodwyd gennym hefyd fod Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i'r cleifion pe byddai eu hangen. Roedd gwybodaeth am yr Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol a sut i ddefnyddio'r gwasanaeth ar gael ar y ward.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd aciwtedd a lefelau dibyniaeth y cleifion a oedd yn cael gofal ar y ward yn amrywio. Roedd unigolion a dderbyniwyd yn ddiweddar yr oedd ganddynt anghenion gofal iechyd meddwl aciwt a chleifion y penderfynwyd eu bod yn addas i'w rhyddhau ac a oedd yn aros i gael eu lleoli mewn cartref gofal neu i wasanaethau gofal eraill yn y gymuned gael eu rhoi ar waith ar eu cyfer.

Nodwyd gennym fod systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod oedi wrth ryddhau rhai o'r cleifion a hynny'n bennaf oherwydd diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol addas. Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas sydd ar gael er mwyn gallu rhyddhau cleifion mewn modd amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda ar y cyfan, gyda gwerthusiadau ysgrifenedig cynhwysfawr yn cael eu cwblhau gan y staff gofal a oedd yn adlewyrchu'r gofal a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe a'r deietegydd am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

Oherwydd anghenion gofal cymhleth rhai o'r cleifion, roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff, a oedd yn rhoi cymorth a goruchwyliaeth un-i-un, yn cylchdroi'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gofal gorau posibl yn cael ei roi bob amser.

Roedd y ward hefyd wedi ymuno â John's Campaign sy'n cynnig hawliau ymweld estynedig i aelodau o deuluoedd sy'n gofalu am gleifion â dementia mewn ysbytai yn y Deyrnas Unedig. Roedd ystafell ddynodedig ar y ward i berthnasau ei defnyddio fel rhan o John's Campaign.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth yn y ffeiliau gofal a arolygwyd a oedd yn cadarnhau bod y cleifion wedi cael eu hysbysu'n briodol am eu hawliau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn cael eu cynnal fel y bo angen. Roedd asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu cynnal ar bob claf adeg ei dderbyn.

Roedd ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth groes yn ffeil un o'r cleifion. Roedd y ffeil yn cynnwys ffurflen DNACPR wedi'i chwblhau ynghyd â chofnod yn nodi y dylid dadebru'r claf. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dymuniadau'r cleifion o ran dadebru yn gyfredol ac yn ddiamwys.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn gydnaws â Gweithio i Wella. Roedd blwch sylwadau wrth brif fynedfa'r ward ac roedd slipiau sylwadau papur ar gael i'w cwblhau.

Roedd poster wedi'i arddangos ar hysbysfwrdd wrth fynedfa'r ward yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i sylwadau a gafwyd.

Dywedwyd wrthym gan y staff fod nifer y cwynion a geir am y gwasanaeth yn isel iawn a bod y gwasanaeth yn ymdrin â nhw'n uniongyrchol lle y bo'n bosibl.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd y gosodiadau a'r ffitiadau ar y ward yn adlewyrchu asesiad risg ffurfiol mewn perthynas â phwyntiau clymu.

Nodwyd gennym fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alw a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

Dywedwyd wrthym nad oedd larwm argyfwng/larwm panig personol y staff yn gweithio ym mhob rhan o'r uned. Roedd hyn yn peri risg o niwed i'r staff.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wrthi'n ymdrin â'r mater hwn. Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i gynnal diogelwch y staff drwy sicrhau eu bod yn cael larymau argyfwng/larymau panig personol sy'n gweithio ym mhob rhan o'r ward.

Roedd aelod o'r staff yn edrych i weld a oedd pob claf a oedd ar yr uned yn iawn bob 15 munud drwy gydol y dydd a'r nos. Dywedwyd wrthym gan nad oedd ffenestri arsylwi ar y drysau a oedd yn arwain at yr ystafelloedd gwely, fod y staff yn tarfu'n ddiangen ar y cleifion yn ystod y nos. Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried gosod ffenestri arsylwi ar y drysau sy'n arwain at yr ystafelloedd gwely er mwyn i'r staff allu cadarnhau bod y cleifion yn iawn heb darfu arnynt. Tynnwyd sylw'r bwrdd iechyd at y mater hwn yn ystod yr arolygiad blaenorol o uned Bryn Hesketh, ac mae'n siomedig nodi nad ymdriniwyd â'r mater.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal ddau glaf a gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu yn cael eu cynnal adeg derbyn a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Atal cwympiadau

Roedd asesiadau risg ar gyfer cwympiadau yn cael eu cynnal adeg derbyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith.

Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Cawsom wybod fod gwaith glanhau trylwyr wedi cael ei gynnal ar y ward yn dilyn brigiad diweddar o COVID-19.

Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch y ward.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da.

Maeth a hydradu

Roedd y bwyd a'r diod a oedd yn cael eu darparu yn dda, ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwyo yn dda.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd diodydd rheolaidd yn cael eu cynnal drwy gydol y dydd a'r nos.

Roedd staff cadw tŷ yn cael eu cyflogi saith diwrnod yr wythnos er mwyn helpu ac annog y cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol heb ruthro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Roedd siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle bo'u hangen, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hylif priodol.

Mae pob pryd yn cael ei goginio'n ffres yn y gegin sydd wedi'i lleoli yn yr ysbyty cymuned cyfagos. Roedd y prydau a welsom yn cael eu gweini ar ddiwrnodau'r arolygiad yn edrych yn ddymunol ac yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Caiff prif bryd y dydd ei weini amser cinio, ac mae'n cynnwys dewis o ddau bryd poeth ac opsiwn llysieuol, gyda byrbryd ysgafnach yn cael ei weini gyda'r nos. Dywedwyd wrthym fod angen adolygu'r trefniant hwn gan y byddai'r rhan fwyaf o'r cleifion, pan fyddent yn byw gartref, fel arfer yn cael eu prif bryd gyda'r nos. Yn ogystal, roedd rhai o'r cleifion yn dewis cael eu brecwast yn nes ymlaen yn y bore, a oedd yn golygu'n aml nad oeddent am gael pryd wedi'i goginio amser cinio. Dylai'r

bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu bwyd ac ystyried cynnig y prif bryd gyda'r nos yn hytrach nag amser cinio.

Yn ogystal â'r brif gegin a oedd wedi'i lleoli yn yr ysbyty cymuned cyfagos, roedd cegin fach ar y ward. Roedd yn cael ei defnyddio gan y staff i baratoi diodydd a byrbrydau i'r cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus. Fodd bynnag, nid oedd y staff bob amser yn cofnodi'r dyddiadau ar y cofnodion ar gyfer gwirio'r cyffuriau a reolir. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiadau bob tro y byddant yn gwirio'r cyffuriau a reolir.

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith, a oedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth a gwnaethom edrych ar sampl o'r cofnodion rhoi meddyginiaeth gan nodi fod y broses yn ddiogel a bod y siartiau yn cael eu cwblhau'n llawn.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n briodol mewn cynhwysydd electronig yn ystafell y clinig, a dim ond staff dynodedig a allai gael mynediad iddo gan ddefnyddio'r cod ar gyfer y bysellbad.

Dywedwyd wrthym fod cymorth fferyllol yn cael ei ddarparu gan Ysbyty Glan Clwyd. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth fferyllol er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn amserol a'i fod yn diwallu anghenion y cleifion yn uned Bryn Hesketh.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar nodi materion diogelu a rhoi gwybod amdanynt.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael yn yr uned a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n briodol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom, yn un achos, nad oedd cyflwr iechyd corfforol un o'r cleifion wedi'i adlewyrchu yn ei gynllun gofal. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyflyrau corfforol y cleifion, ac ymyriadau gofynnol, eu nodi yn y cynlluniau gofal.

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr na ffisiotherapyddion wedi'u lleoli yn uned Bryn Hesketh a bod yn rhaid trefnu cymorth o'r fath gan weithwyr proffesiynol a oedd wedi'u lleoli yn Ysbyty Glan Clwyd. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu argaeledd therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr neu ffisiotherapyddion er mwyn sicrhau nad yw'r ffaith nad oes gweithwyr proffesiynol o'r fath ar gael ar y safle yn golygu bod y cleifion o dan anfantais.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel, ar bapur. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu system rheoli cofnodion electronig, ym mhob rhan o'r gwasanaeth, er mwyn gwella'r broses o gofnodi, rhannu a dadansoddi gwybodaeth.

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Cadw cofnodion

Roedd ansawdd y broses o gadw cofnodion yn dda, ar y cyfan.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chadw'r cofnodion hyn yn ddiogel.

Roedd cofnodion yn cael eu cadw ar bapur, a oedd yn golygu bod y staff yn treulio cryn dipyn o amser yn llungopïo rhai dogfennau penodol, yn arbennig dogfennaeth a oedd yn ymwneud â gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, a oedd yn aml yn eu tynnu oddi ar ddyletswyddau gofalu. Rhaid i'r bwrdd iechyd fwrw ati i gyflwyno system rheoli cofnodion electronig.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom ganolbwyntio ar y prosesau o dan ddarpariaethau Deddf Iechyd Meddwl 1983, ac edrychwyd ar bedair ffeil gofal a oedd yn ymwneud â chleifion a oedd wedi'u cadw o dan y Ddeddf honno. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw'n dda ac nid oedd unrhyw hepgoriadau.

Roedd y gwaith cynllunio gofal yn gynhwysfawr ac roedd trefniadau da i'w gweld ar gyfer rheoli risg. Roedd y ddogfennaeth gadw statudol yn cydymffurfio â gofynion Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Roedd rhesymegau clir yn cael eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau i gadw cleifion o dan y Ddeddf ac roedd pob rhesymeg yn gysylltiedig â'r cyfleoedd asesu gorau posibl i sicrhau gwaith cynllunio parhaus er mwyn darparu gofal/cymorth tymor hwy.

Roedd asesiadau galluedd meddyliol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen, pan oedd atgyfeiriadau yn cael eu gwneud o dan y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r uned.

Rheolwr y ward oedd yn gyfrifol am reoli'r ward o ddydd i ddydd, gyda chymorth dirprwy reolwr y ward. Roedd rheolwr y ward yn cael ei gefnogi gan Reolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt, a oedd wedi'i leoli yn uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt hefyd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o reoli ward iechyd meddwl arall i bobl hŷn a dwy ward iechyd meddwl i oedolion yn uned Ablett yn Ysbyty Glan Clwyd, y Tîm Trin yn y Cartref, y gwasanaethau Cyswllt Seiciatrig a'r gwasanaeth Therapi Electro Ddirdynol (ECT). O ganlyniad, dim ond unwaith yr wythnos yr oedd yn gallu mynd i uned Bryn Hesketh ond byddai modd cysylltu ag ef dros y ffôn ar unrhyw adegau eraill. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu rolau a chyfrifoldebau Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ym mhob un o'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwyllo a chefnogi'r staff. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu ffurfiol wedi'u dogfennu. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu o leiaf unwaith bob deuddeg mis.

Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal mwyach oherwydd problemau o ran argaeledd a phresenoldeb y staff. Gwnaethom argymhell y dylid gwneud mwy o ymdrech i wella presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm ac y dylid sicrhau, pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal, bod cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff ac y dylai pob aelod o'r staff gadarnhau ei fod wedi'u darllen.

Roedd adnodd asesu llywodraethu cynhwysfawr ar waith, a oedd yn nodi unrhyw feysydd yr oedd angen eu gwella neu yr oedd angen eu datblygu.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Yn ogystal â chynnal trafodaethau wyneb-yn-wyneb â'r staff, cyhoeddodd AGIC arolwg ar-lein er mwyn casglu barn y staff ar yr amodau gwaith, ac i gael gwybod eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i'r cleifion yn uned Bryn Hesketh. Derbyniwyd chwe holiadur wedi'u cwblhau.

Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a ddarperir a'r amgylchedd gwaith. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r gofal y mae'r cleifion yn ei gael o safon uchel tu hwnt.”

“Mae'n bleser gweithio ar yr uned hon gyda'r holl staff a'r rheolwyr.”

Ar y cyfan, roedd y staff yn fodlon ar y trefniadau llywodraethu a'r gefnogaeth roeddent yn ei chael ar lefel y ward. Fodd bynnag, roedd y staff yn feirniadol o'r diffyg cymorth ac ymgysylltiad gan y sefydliad ehangach ac uwch-reolwyr y tu allan i uned Bryn Hesketh, gyda phedwar o'r chwe ymatebydd yn nodi nad yw'r uwch-reolwyr yn gofyn am farn y staff pan gaiff penderfyniadau pwysig eu gwneud ac nad ydynt yn gweithredu mewn ymateb i adborth gan y staff. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae angen y canlynol arnom:

- Mwy o staff***
- Gwell cyfathrebu rhwng y rheolwyr a staff y ward***
- Gwybodaeth lawn am ein hopsiynau pan na fyddwn yn gallu dod i'r gwaith am resymau meddygol***
- Mwy o gymorth i'r staff o ran eu hiechyd meddwl nhw***
- Mwy o anogaeth i weithio fel tîm***

•Gallu teimlo bod y pethau y byddwn yn rhoi gwybod amdanynt yn cael eu cymryd o ddifrif yn hytrach na chael eu brwsio o dan y carped
•Sicrhau bod ein pryderon o ran oriau neu batrymau shifftiau yn cael eu cymryd o ddifrif.”

“Mae angen i'r uwch-reolwyr dreulio mwy o amser ar y ward yn hytrach na dim ond cael eu gweld pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.

Y Gweithlu

Roedd staff Bryn Hesketh yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol. Roedd Rheolwr y Ward yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyfforddiant sydd ei angen er mwyn i'r staff ymgymryd â'u dyletswyddau mewn ffordd gymwys ar gael iddynt.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant staff a ddarparwyd yn dangos bod disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau gorfodol fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu. Fodd bynnag, bu rhywfaint o oedi wrth hyfforddi'r staff mewn rhai pynciau yn ystod y pandemig ac mae angen ffocws ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau pob elfen o'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion chwech aelod o'r staff a gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Bryn Hesketh

Dyddiad yr arolygiad: 01 a 02 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bryn Hesketh

Dyddiad yr arolygiad: 01 a 02 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid rhoi mwy o wybodaeth am y ward, a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael, i ymwelwyr yn ardal y coridor sy'n arwain o'r brif fynedfa i'r ward.	Safon 1.1 Hybu, Diogelu a Gwella lechyd	Archebwyd hysbysfyrdau newydd ac fe'u cymeradwywyd drwy Oracle. Archebwyd chwe bwrdd ychwanegol.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau
		Bydd y byrddau newydd yn cynnwys y canlynol: Taflenni gwybodaeth am ddementia, gwybodaeth am PALS a gwasanaethau Eiriolaeth, gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio ac adborth gan adolygwyr allanol.	Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2023
		Bydd bwrdd adnabod staff i'w weld ar gyfer Bryn Hesketh	Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2023

		Adolygiad misol wedi'i ddogfennu o'r hysbysfyrddau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.	Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ardal awyr agored sy'n hygyrch i'r cleifion yn cael ei chadw'n daclus ac mewn cyflwr da.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Mae'r Adran Ystadau Ganolog a'r Pennaeth Gweithrediadau wedi bod yn cyfathrebu a chaiff y gwaith ei gynnal cyn 31 Ionawr 2023. Caiff y broses ei hadolygu gan yr Uwch-dîm Arwain lleol a chaiff unrhyw broblemau eu huwchgyfeirio i'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol lle bo angen.	Rheolwr yr Adran Ystadau Ganolog	31 Ionawr 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dolenni'r drysau a'r canllaw cydio eu trwsio/adnewyddu yn ddi-oed.		Mae'r adran Ystadau wedi ymweld ac wedi gosod dolenni drysau newydd ac wedi tynnu'r canllaw cydio oddi yno.	Rheolwr yr Adran Ystadau Ganolog	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r awdurdod lleol gyda'r bwriad o wella'r	Safon 5.1 Mynediad Amserol	Y Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig i gydgyssylltu â Phartneriaid ac Arweinwyr	Y Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig	31 Rhagfyr 2023

ddarpariaeth gofal cymdeithasol addas sydd ar gael er mwyn gallu ryddhau cleifion mewn modd amserol.		Awdurdodau Lleol i drefnu cyfarfod amlasiantaeth er mwyn helpu i ryddhau cleifion mewn modd amserol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dymuniadau'r cleifion o ran dadebru yn gyfredol ac yn ddiamwys.	Safon 3.5 Cadw Cofnodion	Caiff rhestr wirio ar gyfer dymuniadau o ran dadebru ei rhoi ar waith. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliad misol gan Reolwr y Ward	Pennaeth Nyrsio Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2022 Parhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd gymryd camau i gynnal diogelwch y staff drwy sicrhau eu bod yn cael larymau argyfwng/larymau panig personol sy'n gweithio ym mhob rhan o'r ward.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Cynhaliwyd adolygiad o'r system larymau personol gan y cyflenwr presennol a chawsom gyngor y dylid uwchraddio'r system. Caiff dichonoldeb uwchraddio'r system ei ystyried ar ôl cael cynnig gan y cyflenwr. Caiff papur arfarnu opsiynau ei gyflwyno i'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol ei drafod a'i gymeradwyo.	Rheolwr y Ward Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau	Wedi'i gwblhau 31 Ionawr 2023 28 Chwefror 2023

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried gosod ffenestri arsylwi ar y drysau sy'n arwain at yr ystafelloedd gwely er mwyn i'r staff allu cadarnhau bod y cleifion yn iawn heb darfu arnynt.</p>	<p>Safon 4.1 Gofal ag urddas</p>	<p>Mae Swyddog Diogelwch Tân BIPBC wedi paratoi adroddiad i ni edrych arno yn deillio o ymweliad gwasanaethu.</p> <p>Mae angen ystyried y trefniadau asesu risg ar gyfer diogelwch y cleifion a chysur y cleifion wrth benderfynu a fyddai'n well gosod drysau newydd neu osod paneli arsylwi yn y drysau presennol.</p> <p>Caiff papur arfarnu opsiynau ei gyflwyno i'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol ei drafod a'i gymeradwyo.</p>	<p>Swyddog Diogelwch Tân BIPBC</p> <p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>31 Ionawr 2023</p> <p>28 Chwefror 2023</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau ar gyfer darparu bwyd ac ystyried cynnig y prif bryd gyda'r nos yn hytrach nag amser cinio.</p>	<p>Safon 2.5 Maeth a Hydradu</p>	<p>Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Gwesty a Dieteteg yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth arlwy.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Cleifion Mewnol</p>	<p>31 Rhagfyr 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cofnodi'r dyddiadau</p>	<p>Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Mae gwiriadau dyddiol wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a reolir.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p>bob tro y byddant yn gwirio'r cyffuriau a reolir.</p>		<p>Ailddosbarthu'r Polisi Cyffuriau a Reolir drwy gyfarfod tîm, er mwyn cael cyfle i ymgysylltu â'r staff.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>31 Rhagfyr 2022</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r ddarpariaeth fferyllol er mwyn sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn amserol a'i fod yn diwallu anghenion y cleifion.</p>		<p>Caiff adolygiad ei gynnal o'r ddarpariaeth fferyllol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt â'r Pennaeth Fferyllol.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>31 Ionawr 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyflyrau corfforol y cleifion, ac ymyriadau gofynnol, eu nodi yn y cynlluniau gofal.</p>	<p>Safon 6.1 Cynllunio Gofal i Hybu Annibyniaeth</p>	<p>Gwaith monitro cydymffurfiaeth drwy archwiliadau a gaiff eu cynnal bob wythnos gan Reolwr y Ward a bob mis gan y Rheolwr Gwasanaethau Cleifion Mewnol ac y caiff eu canlyniadau eu cyflwyno i'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol bob tri mis.</p>	<p>Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt</p>	<p>31 Mawrth 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu argaeledd therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr neu ffisiotherapyddion er mwyn sicrhau nad yw'r ffaith nad oes gweithwyr proffesiynol o'r fath ar gael ar y</p>	<p>Safon 5.1 Gofal Amserol</p>	<p>Mae adolygiad yn mynd rhagddo o'r trefniadau ar gyfer darparu therapïau i uned Bryn Hesketh.</p> <p>Mae'r Arweinydd Seicoleg Gofal Acíwt Rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn mapio anghenion</p>	<p>Cyfarwyddwr Therapïau</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth Seicoleg Iechyd Meddwl</p>	<p>28 Chwefror 2023</p> <p>31 Mawrth 2023</p>

<p>safle yn golygu bod y cleifion o dan anfantais.</p>		<p>defnyddwyr gwasanaethau a gwasanaethau ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Bryn Hesketh.</p> <p>Adolygu'r staffio Seicoleg a lefel y swyddi gwag er mwyn sicrhau presenoldeb ar y safle yn Uned Bryn Hesketh.</p>	<p>a'r Gwasanaeth Seicolegol i Oedolion</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth Seicoleg Iechyd Meddwl a'r Gwasanaeth Seicolegol i Oedolion</p>	<p>31 Ionawr 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fwrw ati i gyflwyno system rheoli cofnodion electronig.</p>	<p>Safon 3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yw'r cofnod cleifion electronig ar gyfer iechyd meddwl cleifion mewnol. Mae cynllun peilot wedi dechrau ar Ynys Môn i gleifion nad ydynt yn gleifion iechyd meddwl a chaiff y ddyddiadau ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn llawn eu cytuno.</p>	<p>Pennaeth Gwybodaeth, Rhaglenni, Sicrwydd a Gwella</p>	<p>31 Mawrth 2024</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu rolau a chyfrifoldebau Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt er mwyn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ym mhob un o'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Byddwn yn adolygu dyletswyddau a chyfrifoldebau clinigol Rheolwr Clinigol y Safle ar gyfer Gofal Acíwt.</p> <p>Caiff y canlyniad a'r cynnig eu rhannu â'r Uwch-dîm Arwain Is-adrannol i'w trafod a'u hystyried i'w rhoi ar waith drwy'r is-adran</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau</p>	<p>31 Ionawr 2023</p> <p>28 Chwefror 2023</p>

		gyfan er mwyn sicrhau cysondeb o fewn rôl Rheolwr Clinigol y Safle.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael adolygiadau perfformiad ac arfarnu o leiaf unwaith bob deuddeg mis.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Cynhaliwyd adolygiad perfformiad mewn perthynas ag Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad ac roedd lefel cydymffurfiaeth o 91% ar 14.12.2022. Mae cynllun ar waith i gynnal yr adolygiadau hynny sy'n weddill ac i wella perfformiad mewn perthynas ag Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad.	Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2022
Dylai'r bwrdd iechyd wneud mwy o ymdrech i wella presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm ac i sicrhau, pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal, bod cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff a dylai'r staff hynny gadarnhau eu bod wedi'u darllen.		Mae'r gwaith o ddatblygu amserlen ar gyfer cyfarfodydd ward/tîm yn mynd rhagddo Byddwn yn sicrhau y caiff cyfarfodydd ward a chyfarfodydd tîm eu cefnogi drwy roi bwndel cyfarfod i'r staff, a gaiff ei	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	31 Rhagfyr 2022 31 Rhagfyr 2022

		adolygu gan y staff cyn y cyfarfodydd Adolygu'r rota yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gan staff gyfleoedd teg i fynychu cyfarfodydd ward a chyfarfodydd tîm	Rheolwr y Ward	Parhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sylwadau llai ffafriol gan y staff a chymryd camau i ymdrin â'r materion a amlygwyd.		Bwriedir cynnal sesiwn galw heibio i'r staff. Blwch sylwadau i'r staff er mwyn gallu rhoi awgrymiadau ac adborth gan y staff ar waith.	Rheolwr Gofal Clinigol ar gyfer Gofal Acíwt	31 Rhagfyr 2022

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Iain Wilkie

Swydd:

Cyfarwyddwr Interim Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

Dyddiad:

14 Rhagfyr 2022

